

Crynodeb: Newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â gofal cymdeithasol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Beth yw pwrpas yr ymgynghoriad hwn?

Rydym yn awyddus i gael eich barn am newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â gofal cymdeithasol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Rydym wedi cyhoeddi [dogfen ymgynghori](#) sy'n nodi manylion y cynigion ac yn gofyn cwestiynau cysylltiedig. Darllenwch y ddogfen ymgynghori cyn ystyried eich ymateb.

Mae **Pennod 1** yn amlinellu deddfwriaeth i gefnogi'r ymrwymiad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae'r cynigion cychwynnol yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth gofal preswyl preifat i blant, ynghyd â gofal maeth yn y sector annibynnol.

Mae'r ymgynghoriad yn nodi sut y bydd hyn yn helpu i wireddu ein gweledigaeth ehangach i ailgynllunio'r ffordd rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc, fel y gallwn wneud y gorau ar eu cyfer nhw, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Mae **Pennod 2** yn cynnig galluogi oedolion sy'n gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG i gael gafael ar daliadau uniongyrchol. Nod hyn yw cryfhau ymhellach lais a rheolaeth oedolion anabl ac oedolion sy'n ddifrifol wael a'u gofalywyr, gan roi gwell cefnogaeth i bobl gadw'u hannibyniaeth.

Mae **Pennod 3** yn ystyried a ddylid ehangu'r dyletswyddau i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg o niwed, cam-drin neu esgeulustod – o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – fel eu bod yn berthnasol yn uniongyrchol i unigolion mewn cyrff perthnasol. Mae'n gofyn a fyddai hynny'n amddiffyn pobl yng Nghymru yn well rhag niwed.

Mae **Penodau 4, 5 a 6** yn cynnig diwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Y bwriad yw gwella'r ffordd mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau a'r ffordd mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi ac yn rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys estyn y diffiniad o 'weithiwr gofal cymdeithasol' i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae.

Sut galla i roi fy marn i Lywodraeth Cymru?

Gallwch gyflwyno eich ymateb – i'r cyfan neu unrhyw un o'r cynigion – **erbyn hanner nos ar 7 Tachwedd 2022**, yn unrhyw un o'r ffordd canlynol:

- Llenwi ein **ffurflen ar-lein**
- Lawrlwytho a llenwi ein **ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon drwy e-bost** i: YmgynghoriadGofalCymdeithasol@llyw.cymru Cofiwch gynnwys y cyfeirnod WG45428 yn llinell bwnc eich e-bost.
- Lawrlwytho a llenwi ein **ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i phostio** i'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen ymgynghori mewn print bras, Braille neu ieithoedd eraill.

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y we neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, dywedwch wrthym.